

# DOLEN Y TAB 117

## 29 - 30 Gorffennaf 2022

### Oedfa Sul 31 Gorffennaf am 11

Yng ngofal Y Parchedig Eirian Rees a'r teulu.

#### YR OEDFAON NESAF

##### Awst

- 7 Ymuno â Bethlehem, Gwaelod y Garth  
Oedfa yng ngofal y Parchedig Dafydd Owen
- 14 Oedfa yng ngofal Edwyn Evans
- 21 Ymuno â Bethlehem, Gwaelod y Garth  
Oedfa yng ngofal Dr Ian Hughes
- 28 Oedfa yng ngofal Allan James

#### Hefyd ddydd Sul 31 Gorffennaf

##### 11.00 S4C Eisteddfod Genedlaethol Cymru

Oedfa yn fyw o'r pafiliwn yn Nhregaron.

##### 12.30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

##### 13.00 Radio Cymru Eisteddfod Genedlaethol

Oedfa'r bore o'r pafiliwn yn Nhregaron

##### 19.00 S4C Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2022

Y Gymanfa Ganu yn fyw o'r pafiliwn.

##### E–fwletin Cristnogaeth 21

Bob bore Sul [www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)

## APÊL

Mewn cydweithrediad â Chapel Carmel Blaenllechau rydym yn casglu dillad plant oed ysgol drwy fis Awst. (Bechgyn a Merched o 4 i 14 oed.) Byddwn yn falch iawn i dderbyn eich cyfraniadau wedi eu rhannu i fechgyn/merched ac i ba oedran.

Hefyd rydym yn derbyn "trainers" i blant ac oedolion. Plant pob maint - bechgyn a merched. Oedolion - Merched maint 5, 6 a 7; Dynion maint 8, 9 a 10.

**Bydd y capel ar agor ar foreau Iau a Sadwrn rhwng 10.00 a 12.00 drwy gydol mis Awst.**

Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth garedig  
John Llew

## BANCAU BWYD

Gyda gwyliau ysgol ar y gorwel, fe fydd hi'n anoddach nag erioed i lawer o deuluoedd ddarparu cinio maethlon, a'r banciau bwyd sydd wedi bod yn diwallu'r angen ers tro. Maen nhw bob amser yn gwerthfawrogi cyfraniadau'r Tabernacl.

Mae modd dal i gyfrannu'n ariannol drwy siec neu drosglwyddiad banc, neu ddod â bwyd sy'n cadw i'r capel.

Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth barhaus.

**Y GWEITHGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL**

## Gwahoddiad

Pan benodwyd Eleri Mai fel Swyddog Ieuenctid a Chymunedol ym mis Awst y llynedd, bu'n rhaid iddi deithio'n unswydd i'w chyfweliad gan adael gweddill y teulu yng ngorllewin Cymru ar gymal cyntaf eu gwyliau crwydrol ar draws Cymru. Erbyn iddynt ddychwelyd o'u taith, cwta

wythnos oedd yn weddill cyn bod Eleri Mai'n dechrau ar ei swydd newydd. Mae'n rhyfeddol felly sut y llwyddodd i drefnu rhaglen mor amrywiol yn ystod y flwyddyn. Eleni mae mwy o amser i gynllunio am y flwyddyn sydd i ddod. Eisoed mae ganddi nifer o syniadau newydd cyffrous, ond byddai'n croesawu derbyn rhagor o awgrymiadau. Felly cofiwch gysylltu gydag Eleri Mai dros yr haf os oes awgrym neu ddau penodol gennych i'w gynnig.



## Dymuniadau Gorau...

I Geraint Rees fydd yn derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty yr wythnos nesaf gan obeithio y caiff wellhad llwyr a buan. Estynnwn pob bendith hefyd am wellhad i aelodau eraill y Tabernacl sydd yn derbyn triniaeth feddygol ar hyn o bryd.

## Dolen y Tab

Cyhoeddir rhifyn nesaf *Dolen y Tab* bnawn Gwener 26 Awst. Dros dro, gobeithiwn barhau i gynnwys eitemau - boed yn gyhoeddiadau, newyddion neu hysbysebion a allai fod o ddiddordeb i aelodau a chyfeillion yr eglwys - ar dudalen Facebook y capel, mewn negeseuon e-bost ac ar ein gwefan. Bydd pob croeso i chi anfon eitemau rydych am eu lledaenu atom yn y modd arferol (mae'r manylion i'w gweld ar waelod y dudalen nesaf).




## O'r Wasg

### Cloddio am aur

Ym mis Gorffennaf y llynedd cafodd Prydwen Elfed-Owens ei chyfweld gan Carwyn Siddall, un o gyd-olygyddion y cylchgrawn *Cristion*, er mwyn iddi rannu ei phrofiad o ffydd yn onest ac o'r galon. Hwn oedd y cyntaf mewn cyfres o gyfweiliadau 'Gair o'r Galon' i'w ddangos ar *You Tube* gan y cylchgrawn. Yn ystod y cyfweiliad roedd yn hallt ei beirniadaeth ar draddodiad o barchusrwydd ein capeli, am mai pobl dda oedd yn eu mynychu, pobl oedd am 'sgubo dan y mat broblemau personol megis dibyniaeth ar ddiod neu gyffuriau, tor-priodas a chyflyrau dyrys megis iechyd meddwl a dementia.

Yn ôl ei chyfaddefiad ei hun yn ddiweddarach, teimlodd iddi fod yn rhy llawdrwm ar sefyllfa gyfoes capeli ac eglwysi Cymru gan iddi bardduo pawb â'r un brws. Byddai'r rhan fwyaf ohonom wedi codi'n 'sgwyddau ac anghofio am y cyfweiliad a chario ymlaen gyda'n gorchwylion bob dydd. Ond fel cyn-arolygwr ysgolion, doedd Prydwen ddim yn fodlon gollwng gafael ar y mater gan ei bod yn gofidio nad oedd wedi gwneud 'digon o waith cartref i gyfiawnhau ei chasgliadau.' Felly dyma benderfynu mynd ar bererindod am chwe mis ar draws Cymru i gasglu tystiolaeth gan gynnwys cynnal 60 o gyfweiliadau a brofodd iddi



### Rhannu Cynnyrch yr Ardd Gymunedol



Mae pob croeso i chi alw draw i gasglu rhai o lysiau'r ardd ar yr amserau canlynol:

Bore Sul 31 Gorffennaf, yna rhwng 10 a 12 bob bore Iau a Sadwrn gydol mis Awst

**DERBYNNIR CYFRANIADAU AT YR ARDD GYMUNEDOL**

### Llogi'r Capel neu'r Ganolfan

**E-bostiwrch**

gehpengwern@yahoo.co.uk

**Neges Testun**

07710 237327

**Ffonio**

01433 225205

fod yna weithgarwch gobeithiol i'w weld mewn 'pocedi byrlymus a chyffrous yng Nghymru heddiw.' Ffrwyth ei phererindod oedd cyhoeddi llyfr swmpus 400+ tudalen, '*Malwan bach fel fi... yn cloddio am aur*', mewn da bryd i'w lansio ym mhabel Cytûn ar faes yr Eisteddfod yn Nhregaron yr wythnos nesaf.



Ac eithrio Cyfrifiad Crefyddol 1851, pan ddadansoddwyd nifer y rhai a fynychodd oedfa yn addoldai Cymru ddydd Sul 30 Mawrth 1851, go brin y gwelwyd y fath drylwyrdd wrth gofnodi cyflwr capeli ac eglwysi yng Nghymru. Tipyn o orchest a dweud y lleiaf wrth feddwl iddi gwblhau a chyhoeddi'r canfyddiadau o fewn blwyddyn. Ond yn wahanol i gyfrifiad 1851, oedd wedi ei gyfyngu i ystadegau moel, ceir dadansoddiad yma o'r hyn a gyflawnir yn enw'r lesu mewn rhai dwsinau o addoldai ar hyd a lled Cymru.

Mae'r rhannau agoriadol yn cynnig fframwaith tri chategori i ddisgrifio cyflwr eglwysi Cymru heddiw sef, Dewr Galon; Twym Galon a Gwan Galon, cyn rhestru nifer o feini prawf fel man cychwyn i gynnal hunan-asesiad fel y gall eglwysi bwysu a mesur pa un o'r categorïau hyn sy'n disgrifio eu hachos orau, ynghyd â strategaethau y gellid eu mabwysiadu i alluogi'r eglwys i symud i lefel arall.

Rhennir y gyfrol yn bum prif adran, sef:

1. Bugeilio Ymarferol - tosturi ar y rheng flaen;
2. Tanio'r Fflam - denu'r ifanc a'r gymuned leol;
3. Cenhadu Cyfoes - cyfathrebu technolegol;
4. Arweiniad Goleuedig - bwrlwm byw;
5. Rheoli Grymusol - gweledigaeth gynhwysol.

Ym mhob adran ceir disgrifiadau o weithgareddau ysbrydol, cenhadol ac ymarferol mewn eglwysi unigol i wrthbrofi honiad gwreiddiol Prydwen yn y cyfweiliad i *Cristion* y llynedd.

**Wedi chwe mis o gloddio diwyd daeth ar draws aur, sef eglwysi Dewr Galon, ym mhob cwr o Gymru ac yn perthyn i bob enwad, nad oes modd eu rhestru i gyd yma. Ond o leiaf medrwn grybwyll y sylw haeddiannol ynddo i gyfraniad campus Eleri Mai gyda'r ieuenctid a'r gymuned leol yn Efail Isaf yn yr adran 'Tanio'r Fflam'. Yn yr un modd ceir disgrifiad manwl o'r prosiectau niferus sydd ar waith yn y Tabernacl yn yr adran 'Arweiniad Goleuedig.'**

[Elfed-Owens, Prydwen: '*Malwan bach fel fi... yn cloddio am aur*. Carreg Gwalch. Pris £10.]

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org)

Gofynnir i chi anfon newyddion erbyn nos Iau at: 07710 237327 / 01433 225205 / [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk)